# Prifysgol Caerdydd
# Safonau'r Gymraeg
# Adroddiad Blynyddol ar gyfer
# Awst 2023 - Gorffennaf 2024

Paratowyd yn unol â Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 6) 2017 ac adroddiad blynyddol ‘Cynhyrchu safonau’r Gymraeg – dogfen cyngor arfer da’ Comisiynydd y Gymraeg.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/This document is available in English

# Cynnwys


1. Rhagair
2. Crynodeb Gweithredol
3. Trosolwg o'r Brifysgol
4. Datblygiadau yn ystod 2022-2023
5. Trefniadau Cydymffurfiaeth Cyffredinol
6. Cynllun Gweithredu 2023-2024
7. Cynllun Gweithredu 2024-2025
8. Cwynion
9. Sgiliau Iaith Gymraeg y Gweithwyr

9a) Sgiliau Iaith Gymraeg Staff y Gwasanaethau Academaidd a Phroffesiynol

10. Hyfforddiant Iaith Gymraeg i Staff
11. Cyrsiau Hyfforddiant
12. Swyddi a Hysbysebwyd
13. Manylion cyswllt

Atodiad A: Cynllun Gweithredu'r Gymraeg 2023-2024

Atodiad B: Cynllun Gweithredu'r Gymraeg 2024-2025

# 1. Rhagair

Yn fy rôl o fod yn Brofost a Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg, rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol eleni, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Awst 2023 a mis Mehefin 2024.

Mae Prifysgol Caerdydd yn ymrwymedig i ymgorffori a phrif ffrydio'r Gymraeg yn ei holl weithgareddau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, yn unol â'n Strategaeth Iaith Gymraeg, [Yr Alwad/Embrace It], sydd â'r nod o fynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth, a chyfoethogi amgylchedd gwirioneddol ddwyieithog. Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli diwylliant Cymraeg ehangach y sefydliad mewn rhai ffyrdd, ond nid y diwylliant hwnnw ei hun ydynt, wrth gwrs. Er hynny, mae cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn allweddol ac, yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r Brifysgol wedi parhau â'i hymdrechion i sicrhau cydymffurfiaeth, sy'n sail hanfodol i'r diwylliant ehangach ac sy'n rhoi hyder i staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.

Mae'r hyn a nodwyd y llynedd yn berthnasol eto: rydym wedi parhau i feithrin ymwybyddiaeth o'r Safonau trwy gynnal sesiynau cyflwyno ac ymwybyddiaeth, trwy gynnwys y Safonau yn ein modiwlau hyfforddi gorfodol a'n rhaglenni cynefino ar gyfer staff, a thrwy gyhoeddi erthyglau yn ein cylchlythyrau staff a myfyrwyr. Ac unwaith eto, mae gwaith allweddol wedi'i wneud gyda'n Tîm Cyfathrebu Digidol i wella'r ddarpariaeth ar-lein trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r adroddiad hwn, sy'n rhan o'r daith tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn nodi ein cydymffurfiaeth â'r Safonau ac yn cyflwyno'r data angenrheidiol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, gan gynnwys gwybodaeth am ein trefniadau cyffredinol ar gyfer cydymffurfiaeth, cwynion, sgiliau gweithwyr, cyrsiau hyfforddi a gynigir yn Gymraeg a nifer y swyddi a hysbysebwyd y categoreiddiwyd yn rhai y mae angen sgiliau Cymraeg ar eu cyfer. Rydym wedi ystyried y data hyn yn ofalus, sydd eto yn amlygu cynnydd; ar yr un pryd maent yn tanlinellu'r angen i barhau i weithio, mewn modd dychmygus ac o safbwynt cydymffurfio, i sicrhau ansawdd, gweledeedd a chyrhaeddiad ein gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.



Damian Walford Davies
Profost a Dirprwy Is-Ganghellor

# 2. Crynodeb Gweithredol

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi dyletswydd ar Brifysgol Caerdydd, ymhlith sefydliadau cyhoeddus eraill, i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Fel un o ofynion Safon y Gymraeg 166, 172 a 178 mae'n ofynnol i'r Brifysgol gyhoeddi 'Adroddiad Blynyddol' yn manylu ar y wybodaeth ganlynol:

| | |
|---|---|
| **Cydymffurfio cyffredinol** | Sut rydym wedi cydymffurfio â'r safonau yr oedd dyletswydd arnom eu cyflawni yn ystod y flwyddyn honno (yn ôl dosbarth y safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu). |
| **Cwynion** | Nifer y cwynion a gafwyd (yn ôl dosbarth y safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu). |
| **Sgiliau'r gweithlu** | Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw. |
| **Cyrsiau hyfforddiant** | Nifer yr aelodau o staff (a'r ganran) a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gennym yn Gymraeg. |
| **Swyddi a hysbysebwyd** | Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y flwyddyn a oedd wedi'u categoreiddio gyda gofynion gwahanol o ran sgiliau Cymraeg. |

6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, mae'n rhaid i ni gyhoeddi'r adroddiad ar-lein a sicrhau ei fod ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'n ofynnol i ni hefyd roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith ein bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.

# 3. Trosolwg o'r Brifysgol

## Llywodraethu

Bwrdd Gweithredol y Brifysgol (UEB) sy'n gyfrifol yn y pen draw am wneud yn siŵr bod y Brifysgol yn cydymffurfio'n gyffredinol â Rheoliadau (Rhif 6) y Gymraeg 2017, yn ogystal â'r holl faterion eraill sy'n ymwneud â gweithredu a monitro polisïau.

Gellir gweld Hysbysiad Cydymffurfio'r Brifysgol yn llawn ar ein gwefan yma.
Mae ein datganiad ffurfiol o gydymffurfio â'r
- Safonau Cyflenwi Gwasanaeth i'w ddarllen o fewn ein Polisi Darparu Gwasanaethau Cymraeg.
- Safonau Gweithredol i'w ddarllen o fewn ein Polisi Safonau Gweithredol y Gymraeg.

Mae gan y Brifysgol Grŵp Gweithredol y Gymraeg, a sefydlwyd ym mis Hydref 2021, sy'n gyfrifol am gynnig arweiniad strategol a sicrhau atebolrwydd, a hynny dan oruchwyliaeth y Profost a Dirprwy Is-Ganghellor. Mae'r Grŵp yn cwrdd o leiaf deirgwaith y flwyddyn i adolygu'r cynnydd yn unol â Strategaeth yr Iaith Gymraeg a dyletswyddau statudol o dan reoliadau Safonau'r Gymraeg. At hyn, mae Pwyllgor Llywodraethu'r Brifysgol yn ymwneud â chraffu ar adroddiadau a datblygiadau.

## Y Tîm Cydymffurfiaeth a Risg

Y tîm Cydymffurfiaeth a Risg yn Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol sy'n gyfrifol yn benodol am arweiniad a chyngor ar Safonau'r Gymraeg. Mae'r tîm Cydymffurfiaeth a Risg yn darparu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd a meysydd i'w gwella i Grŵp Gweithredol y Gymraeg, sy'n cael ei gadeirio gan ein Profost a Dirprwy Is-Ganghellor. Yn dilyn ymadawiad yr UwchGynghorydd blaenorol â chyfrifoldeb am y Gymraeg, cwblhawyd adolygiad o'r disgrifiad swydd a'r teitl, a sefydlwyd rôl newydd yr Uwch-Gynghorydd Cydymffurfiaeth a Swyddog y
Gymraeg i ddangos pwysigrwydd y Gymraeg o fewn ein cylch gwaith cydymffurfio ac i ganiatáu mwy o ffocws ar Safonau'r Gymraeg fel rhan o rôl dydd-i-ddydd yr UwchGynghorydd.

## Grŵp Materion y Gymraeg

Mae'r grŵp gweithredol hwn, a sefydlwyd ym mis Hydref 2021 hefyd, yn cwrdd yn rheolaidd i drafod cynnydd cynlluniau gweithredu, ac unrhyw benderfyniadau strategol a ddirprwyir iddo i'w rhoi ar waith.

## Modiwl Gorfodol a Digwyddiadau Sefydlu

Mae'r Brifysgol wedi creu e-fodiwl Cymraeg y mae'n rhaid i'r holl staff ei gwblhau, y bydd yn ei ddiweddaru a'i adnewyddu yn ystod cyfnod adrodd 2024-2025. Mae'r modiwl hwn yn datblygu ymwybyddiaeth aelodau staff o'r Gymraeg, gan gynnwys ymwybyddiaeth o'i hanes a'i rôl yn niwylliant Cymru, dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg, a'r modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r Brifysgol hefyd yn meithrin ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau yn ystod ei digwyddiadau sefydlu staff wyneb yn wyneb ar gyfer newydd-ddyfodiaid.

## Tîm Cyfieithu

I amlygu ymrwymiad y Brifysgol i'r Gymraeg, mae yna 12 o staff bellach yn rhan o'r Tîm Cyfieithu Cymraeg – un Rheolwr Gwasanaeth, pedwar Uwch-gyfieithydd, chwe Chyfieithydd a Swyddog Gweinyddol. Mae'r uned yn defnyddio rhaglen feddalwedd cyfieithu lle gellir gwneud ceisiadau cyfieithu. Gall staff sy'n siarad Cymraeg hefyd gyflwyno ceisiadau i'r uned gyfieithu i wirio cywirdeb unrhyw gynnwys Cymraeg. Mae gan y Brifysgol danysgrifiad blynyddol i becyn meddalwedd cof cyfieithu sy'n storio'r holl waith cyfieithu er mwyn sicrhau cysondeb ac i gyflymu'r broses o gyfieithu yn y dyfodol pan fydd yr un brawddegau neu dermau wedi'u cyfieithu o'r blaen. Caiff pob cais a gyflwynir i'r uned ei wirio gan aelod uwch o'r tîm er mwyn sicrhau cywirdeb mewn perthynas â gramadeg ac ystyr.

## Deon y Gymraeg

Mae Deon cyntaf y Brifysgol dros y Gymraeg wedi bod yn ei swydd ers mis Tachwedd 2018, ac mae'r rôl yn un sy'n ceisio meithrin cyfraniadau unigol a chyfunol at hyrwyddo a datblygu'r Iaith Gymraeg ar draws pob agwedd ar fywyd y Brifysgol. Mae'r Deon yn hyrwyddwr proffil uchel ar gyfer anghenion academaidd ac anghenion ehangach myfyrwyr a staff sy'n siarad Cymraeg. Mae ganddo oruchwyliaeth strategol dros bortffolio ein darpariaeth Gymraeg, mae'n datblygu polisïau, ac mae'n gyfrifol am ysgogi'r gwaith o gyflawni ein strategaeth Iaith Gymraeg. Mae'r gwaith hwn a'r ymrwymiadau cysylltiedig yn cael eu cyfleu yn Strategaeth Iaith Gymraeg y sefydliad, a gymeradwywyd ar y lefel

benderfynu uchaf yn y Brifysgol (Bwrdd Gweithredol y Brifysgol, y Cyngor a'r Senedd) ym mis Rhagfyr 2020.

Er mwyn hyrwyddo nodau'r strategaeth, mae'r Brifysgol wedi sefydlu'r Academi Gymraeg, sef rhwydwaith o ymarferwyr sy'n ehangu ac yn esblygu'n barhaus ledled y Brifysgol ac sy'n ymwneud ag elfennau amrywiol o ran cyflawni ei hymrwymiadau Cymraeg. Y Deon, Rheolwr yr Academi a Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg yw canolbwynt y gweithgarwch hwn, a hynny mewn cysylltiad agos â'r Uwch-gynghorydd Cydymffurfiaeth â chyfrifoldeb dros y Gymraeg. Sefydlodd yr Academi Gymraeg gartref iddi ei hun yn ystod 2023 (Y Lle) ar Plas y Parc yng nghanol Campws y Brifysgol gyda'r bwriad o fod yn ganolbwynt ffisegol i'r gymuned Gymraeg a hyrwyddo bywyd Cymraeg y sefydliad, gan gynnwys ei rwydweithiau dysgwyr sy'n tyfu. Mae cynllun gwaith Deon y Gymraeg a'r Academi Gymraeg yn cael ei fonitro gan Grŵp Gweithredol y Gymraeg, sy'n cwrdd deirgwaith y flwyddyn ac yn cynnwys y Profost a Dirprwy Is-Ganghellor (yn rôl Arweinydd y Brifysgol ar gyfer y Gymraeg a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant), y Prif Swyddog Gweithredu, y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Recriwtio, Pennaeth Ysgol y Gymraeg, y Pennaeth Cydymffurfiaeth a Risg, Swyddog y Gymraeg ar gyfer myfyrwyr, a chyd-weithwyr allweddol y Gwasanaethau Proffesiynol ac Academaidd. Darperir sicrwydd trwy'r grŵp hwn i Fwrdd Gweithredol y Brifysgol fesul chwe mis. Bydd gwaith ar y strategaeth sy'n ymwneud â'r myfyrwyr hefyd yn cael ei fonitro trwy'r pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr sy'n cwrdd yn chwarterol, ac mae'r gwaith yn destun craffu hefyd trwy'r pwyllgorau Llywodraethu a'r Hyrwyddwr Cymraeg sydd newydd ei benodi i'r Cyngor. Yn sgil sefydlu swyddog sabothol llawn-amser y Gymraeg yn Undeb y Myfyrwyr yn ddiweddar, bydd y gwaith o ymgorffori Pwyllgor Llais y Myfyrwyr ledled y Brifysgol yn parhau eleni i graffu ar brofiad myfyrwyr Cymraeg ac i gryfhau cysylltiadau rhwng staff a myfyrwyr er mwyn gwella'r profiad hwnnw. Mae ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd gwaith y Brifysgol yn ymwneud â'r Gymraeg, a adlewyrchir yn ein gwaith ymchwil a ariennir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ynghylch profiadau myfyrwyr Cymraeg Du a Brown, a thrwy gyflwyno Ysgoloriaeth Betty Campbell sydd â'r nod o annog cyfranogiad siaradwyr Cymraeg o gefndiroedd amrywiol. Gan mai dim ond ym mis Rhagfyr 2020 y cymeradwywyd y strategaeth, nid yw wedi bod yn destun adolygiad eto, ond gan fod Is-Ganghellor newydd wedi'i phenodi'n ddiweddar a thymor y Deon presennol yn dod i ben ym mis Tachwedd 2024, bydd yna graffu ar y strategaeth, a bydd o bosibl yn cael ei diwygio neu ei disodli o dan y Deon newydd, yn rhan o drawsnewidiad sefydliadol ehangach.

## Yr Academi Gymraeg

Lleolir rôl Rheolwr yr Academi Gymraeg yn Swyddfa'r Is-Ganghellor, yn gweithio ochr yn ochr â Deon y Gymraeg a Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac mae'n bwynt cyswllt canolog sy'n darparu arweiniad a chymorth i wahanol Ysgolion Academaidd ac adrannau'r Brifysgol. Mae'r Rheolwr yn cysylltu ag ystod eang o sefydliadau allanol gan gynnwys ysgolion lleol, sefydliadau AU eraill yng Nghymru, cynghorau lleol, y llywodraeth, sefydliadau'r trydydd sector a rhanddeiliaid allweddol eraill, gyda'r nod o hwyluso ein nodau strategol yn ogystal â chyfrannu at gydweithio ehangach ledled Cymru o ran hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant.

Mae prosiectau nodedig y canolbwyntiwyd arnynt yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys:

- Agoriad Y Lle, 53 Plas y Parc, sef gweithle cymunedol Cymraeg pwrpasol cyntaf Prifysgol Caerdydd sydd wedi'i leoli'n ganolog ar Gampws Cathays, gyda desgiau poeth ar gael i'r holl staff a myfyrwyr PhD o fis Mawrth 2024. Mae prosiect peilot wedi'i drefnu ar gyfer 24-25 lle bydd partneriaid cysylltiol o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd sy'n siarad Cymraeg yn cael eu gwahodd i weithio o'r desgiau poeth yn Y Lle, gan gynyddu cysylltiad y Brifysgol â'n cymuned ehangach, a chreu cyfleoedd i gydweithio ledled y rhanbarth.

Darparu modiwl Dinesydd Caerdydd, sef modiwl 5 credyd ar gyfer pob myfyriwr blwyddyn gyntaf sy'n siarad Cymraeg (wedi'i ariannu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol). Blwyddyn academaidd 24-25 fydd y drydedd flwyddyn y bydd y modiwl hwn wedi'i ddarparu. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar opsiynau i ddatblygu llwybr Dinesydd Caerdydd ymhellach ar gyfer myfyrwyr ym mlwyddyn 2 a 3, a hynny trwy sefydlu modiwl 20 credyd seiliedig ar ymchwil a fydd yn cael ei gyflwyno ar draws pynciau, gan agor cyfleoedd newydd i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith mewn Ysgolion lle mae yna brinder dewisiadau cyfrwng Cymraeg neu ddim opsiynau Cymraeg o gwbl.

- Cyhoeddwyd y garfan gyntaf o Ysgolheigion Betty Campbell ym mis Mai 2024, sy'n cynnwys deg myfyriwr israddedig benywaidd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol; neu'r unigolyn cyntaf mewn teulu i siarad Cymraeg; neu aelwyd incwm isel) a fydd yn ymgymryd ag o leiaf 20 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Lansiodd yr Academi Gymraeg raglen o sesiynau meithrin hyder rhyngweithiol gyda'r ysgolheigion, rhaglen a luniwyd mewn ymateb i geisiadau gan y grŵp. Mae'r grŵp yn cymryd rhan mewn cynllun symudedd myfyrwyr gyda Phrifysgol Waikato yn Aotearoa/Seland Newydd ac wedi ymweld â Phrifysgol Waikato i gymryd rhan yn y cwrs arweinyddiaeth Te Ao Hurihuri Māori ochr yn ochr â grŵp bach o fyfyrwyr o Genedl Abernaki yn Vermont. Yn ogystal â rhoi cyfle i'r grŵp gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg am bythefnos, rhagwelir y bydd y profiad hwn yn ysbrydoli'r myfyrwyr i ystyried eu hunaniaeth a'u perthynas eu hunain â'r Gymraeg, ynghyd â meithrin dealltwriaeth ddyfnach o arwyddocâd byd-eang y Gymraeg o fod yn iaith leiafrifol.

- Ar 18 Mehefin 2024, ar gais CYDAG, arweiniodd Deon y Gymraeg y gwaith o gydlynu Diwrnod Profiad AU cyfrwng Cymraeg, a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Caerdydd mewn cydweithrediad â Phrifysgol De Cymru, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Fforwm Caerdydd y cyngor lleol. Roedd 12 o ysgolion Uwchradd Cyfrwng Cymraeg o bob rhan o Dde Cymru yn bresennol yn y digwyddiad, yn cynnwys dros 750 o ddysgwyr blwyddyn 12.

- Cefnogodd yr Academi Gymraeg ddau brosiect Ehangu Cyfranogiad/Allgymorth llwyddiannus ym mis Gorffennaf/Awst 2024, gyda chyllid ar gyfer y ddau brosiect wedi'i sicrhau trwy grantiau mewnol: ym mis Gorffennaf, cyflwynodd JOMEC Cymraeg *Gynhadledd Llais Caerdydd* i ddysgwyr blwyddyn 10 o Ysgol Glantaf ac Ysgol Gwynllyw, gyda chyflwynwyr gwadd o HTV, BBC Cymru, Cowshed PR ac Equinox Communications; ac estynnwyd gwahoddiad gan *Prosiect Perthyn*, a ariennir gan Cennad Ddinesig, i dri myfyriwr archwilio tarddiad radical yr Eisteddfod

Genedlaethol, a arweiniodd at gyflwyniad i'r Fforwm Ieuenctid ym Mhafiliwn Grange, ynghyd â thaith wedi'i threfnu i grŵp o 14 o bobl ifanc fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd, nifer ohonynt am y tro cyntaf.

- Cydgysylltu gweithdai â staff Cymraeg allweddol a arweiniodd at set o argymhellion, a llais Cymraeg unedig, gan gyfrannu at ddatblygu strategaeth newydd y Brifysgol.

## Hyrwyddwyr y Gymraeg

Mae gan y Brifysgol rwydwaith Hyrwyddwyr y Gymraeg, a sefydlwyd mewn ymateb i Safonau'r Gymraeg yn ystod 2017, sy'n cynnwys o leiaf un aelod o staff o bob Ysgol, Coleg ac Adran. Nhw yw'r pwynt cyswllt cychwynnol ar gyfer yr Academi Gymraeg a'r tîm Cydymffurfiaeth a Risg a'r Ysgol/Adran y maent yn gweithio ynddi. Mae'r Academi Gymraeg a'r tîm Cydymffurfiaeth a Risg yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r hyrwyddwyr i ledaenu gwybodaeth ac arweiniad sy'n helpu'r Brifysgol i gydymffurfio â'r Safonau ac â'i nodau ehangach fel yr amlinellir yn ei strategaeth.

## Rhwydwaith

Mae Rhwydwaith yn rhan o Rwydweithiau Cydraddoldeb Staff y Brifysgol a sefydlir gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Brifysgol. Mae Rhwydwaith yn bodoli i ddarparu fforwm ar gyfer cefnogaeth a thrafodaeth i staff sy'n dymuno trafod materion yn ymwneud â'r Gymraeg ac i hwyluso trafodaeth rhwng y Brifysgol a staff ynglŷn â chefnogaeth, polisïau, a gweithdrefnau. Mae'r Cadeirydd hefyd yn aelod â phleidlais o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant lle y codir adroddiadau diweddaru a materion i sylw'r Cadeirydd.

## Cangen Prifysgol Caerdydd o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae Cangen Prifysgol Caerdydd o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dwyn ynghyd gymuned o staff academaidd a phroffesiynol i gydweithio a chefnogi gwaith parhaus y Brifysgol o ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r gangen hon yn chwarae rhan hollbwysig yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan fod yn grŵp gweithredol sy'n cefnogi mentrau Cymraeg amrywiol. Mae'r gangen yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn, ac mae'r uchafbwyntiau allweddol o 2023-24 yn cynnwys y canlynol:

- Cynnal gweithdai gyda Chyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu a staff Cymraeg eu hiaith i ddatblygu strategaethau ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar lefelau gwahanol. Arweiniodd hyn at argymhellion yn seiliedig ar ymchwil i agweddau myfyrwyr, sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dewis ac yn gallu astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, a'u cynorthwyo i wneud hynny.

- Sicrhau cyllid o nifer o ffrydiau'r Coleg Cymraeg, gan gynnwys Grantiau Bach, Grantiau Cydweithredol, a phedair Ysgoloriaeth Ymchwil i wella'r ddarpariaeth.

- Cafodd dros 250 o israddedigion ysgoloriaethau gan y Coleg Cymraeg a'r Brifysgol am astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg.

- Llwyddodd 27 o fyfyrwyr i gael Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg, gydag 17 ohonynt yn ennill rhagoriaeth.

- Gwnaed cais llwyddiannus gan fyfyrwyr sy’n aelodau o’r gangen i fod yn Llysgenhadon y Coleg Cymraeg, a dewiswyd pum llysgennad israddedig a dau lysgennad ôl-raddedig.
- Cafodd myfyrwyr sy’n aelodau o’r gangen sawl gwobr gan y Coleg Cymraeg, gan gynnwys Gwobr William Salesbury am brosiect gan fyfyrwyr meddygaeth.
- Cymerodd myfyrwyr PhD a ariennir gan y Coleg Cymraeg ran yng Nghynhadledd Ymchwil y Coleg, y gystadleuaeth Traethawd Tri Munud, a digwyddiad Blas ar Ymchwil y Gangen.

# 4. Datblygiad yn ystod 2022-2023

## Gwaith Monitro Comisiynydd y Gymraeg

Bob blwyddyn mae Comisiynydd y Gymraeg yn cyhoeddi adroddiad sicrwydd sy’n cynnwys data a gafwyd o’i waith monitro. Pwrpas adroddiadau sicrwydd yw rhoi barn y Comisiynydd ar y modd y mae sefydliadau’n gweithredu i gydymffurfio â’u dyletswyddau iaith, gan roi sylw arbennig i brofiadau defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg.

Mae’n cynnwys tystiolaeth am y canlynol:

- Perfformiad sefydliadau o ran darparu gwasanaethau Cymraeg ac annog pobl i'w defnyddio
- Trefniadau cydymffurfio – yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud i sicrhau bod eu darpariaeth yn cydymffurfio â’r gofynion
- Capasiti’r gweithlu – sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg yn y rolau cywir
- Hyrwyddo’r Gymraeg – cyfrannu at ddyfodol y Gymraeg trwy ystyried effaith penderfyniadau polisi a grantiau ar y Gymraeg a gweithredu strategaethau hybu’r Gymraeg.

Roedd Prifysgol Caerdydd yn destun gwaith monitro’r Comisiynydd yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, ac roedd yn ofynnol iddi ddarparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth mewn 24 o feysydd cydymffurfio a oedd yn cynnwys 91 o’r 177 o safonau sydd gennym.

Rhannwyd canfyddiadau'r gwaith â'r Brifysgol, ac mae hyn wedi arwain at greu Cynllun Gweithredu sy'n nodi’r canlynol:

- Camau sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r Safonau
- Perchennog y Cam Gweithredu sy'n gyfrifol am gyflwyno datrysiad
- Sefydlu rhanddeiliaid a phwy a all gynorthwyo Perchennog y Cam Gweithredu i gyflawni
- Amserlen i gwblhau'r cam gweithredu
- Pwy sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd
- Nodiadau gweithredu sy’n rhoi cyngor ar y statws presennol.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn ddogfen fyw sy'n darparu map trywydd i gydymffurfio â'r Safonau yn seiliedig ar waith monitro'r Comisiynydd. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cael ei

ddiweddaru yn ôl yr angen er mwyn rhoi cipolwg cyfredol o'r cynnydd a wnaed a pha gamau gweithredu sy'n weddill. Gellir gweld copi o'r Cynllun Gweithredu yn Atodiad A. Sylwer bod y copi a ddarperir yn gywir hyd at ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn yn unig.

## Ymgyrchoedd

Yn ystod 2023-2024 bu’r Brifysgol yn hyrwyddo sawl ymgyrch i feithrin ymwybyddiaeth o hawliau myfyrwyr a staff Prifysgol Caerdydd i ddefnyddio’r Gymraeg. Rydym hefyd wedi bod yn bresennol mewn nifer o wyliau diwylliannol. Ceir rhai uchafbwyntiau isod.

**Diwrnod Shwmae/Sumai**

Bu i ni ddathlu Diwrnod Shwmae/Sumai trwy gynnal dathliad ar y cyd â’n Hundeb Myfyrwyr yn ein Canolfan Bywyd y Myfyrwyr, annog myfyrwyr a staff i gofrestru ar gyfer gwersi Cymraeg, a darparu taflenni ac arnynt sillafu ffonetig ar gyfer ymadroddion rheolaidd i ysbrydoli myfyrwyr a staff i ddechrau eu holl sgyrsiau yn Gymraeg.

**Diwrnod Hawliau’r Iaith Gymraeg**

Roeddem wedi dathlu Diwrnod Hawliau'r Gymraeg trwy dynnu sylw at y gwasanaethau y mae gan bobl hawl i'w cael trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny trwy ein sianeli cyfathrebu rheolaidd, megis Blas (cylchlythyr Staff), Newyddion Myfyrwyr (Cylchlythyr Myfyrwyr) a'n Rhwydwaith Hyrwyddwyr y Gymraeg sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl wasanaethau proffesiynol ac ysgolion a cholegau academaidd.

**Eisteddfod yr Urdd a’r Eisteddfod Genedlaethol**

Buom yn hyrwyddo gweithgarwch y Brifysgol yn Eisteddfod yr Urdd a’r Eisteddfod Genedlaethol ar draws ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal â chyhoeddi ein postiadau ein hunain, bu i ni hefyd ymwneud â phostiadau gan randdeiliaid perthnasol a'u rhannu fel y bo'n briodol. Trefnwyd hefyd i rai o’n myfyrwyr Cymraeg eu hiaith gymryd rheolaeth dros ein cyfrif iamcardiffuni ar X (Twitter yn flaenorol) am yr wythnos er mwyn gwneud postiadau’n fyw o’r Maes.

# 5. Trefniadau Cydymffurfio Cyffredinol

## Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae datganiad o gydymffurfiaeth ffurfiol y Brifysgol â’r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau ar gael i’w ddarllen yn ein Polisi Darparu Gwasanaethau Cymraeg.

| Grŵp Safonau | Yr hyn a wnawn |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Gohebu â’r Cyhoedd | Mae’r Brifysgol wedi llunio arweiniad i staff ynghylch cyfathrebu’n ddwyieithog, ac mae hwn ar gael ar Fewnrwyd y Staff. Mae ymgyrch gyfathrebu wedi cael ei chynnal trwy gydol y cyfnod adrodd er mwyn meithrin ymwybyddiaeth y staff o’r arweiniad. Mae hyn yn cynnwys erthyglau rheolaidd i staff, a fideo sy’n esbonio hawliau Myfyrwyr o dan y Safonau. Gofynnir i staff gynnwys llofnod dwyieithog ar waelod pob e-bost. Mae dewis iaith y myfyrwyr yn cael ei gofnodi wrth iddynt ymrestru ac mae’r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd i’r staff sy’n cyfathrebu â nhw. |
| Rhif ffôn | Crëwyd arweiniad i staff er mwyn helpu’r rhai di-Gymraeg gyda chyfarchion dwyieithog a recordio neges allan-o’rswyddfa. Mae cardiau post wedi cael eu dylunio ar gyfer y bwrdd gwaith sy’n rhestru cyfarchion defnyddiol wedi’u hysgrifennu’n ffonetig ac mae’r rhain wedi cael eu dosbarthu’n helaeth ledled y Brifysgol. |
| Cyfarfodydd, Digwyddiadau, Darlithoedd Cyhoeddus a Chyfleoedd i Ddysgu | Crëwyd arweiniad i staff a dogfennau coeden benderfyniadau er mwyn helpu staff i ganfod a oes angen darpariaeth ddwyieithog yn y categorïau hyn. Mae’r Tîm Cydymffurfiaeth a Risg wedi rhoi cyflwyniadau mewn sawl grŵp rhwydwaith staff allweddol er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o’r gofynion yn y meysydd hyn. Llwyddodd tîm cyfieithu'r Brifysgol i ddatblygu gweithdrefn ar gyfer darparu cyfieithu ar y pryd ar-lein ac mae wedi cael adborth cadarnhaol ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth hon. |
| Gwefan | Sefydlodd y Brifysgol Grŵp Gorchwyl a Gorffen i oruchwylio Prosiect Cyfieithu’r Wefan. Rheolir monitro parhaus trwy'r grŵp hwn. |
| Dogfennau/Cyhoeddusrwydd | Crëwyd arweiniad er mwyn helpu staff i ganfod y dogfennau a’r cyhoeddusrwydd y mae’n rhaid iddynt fod ar gael yn ddwyieithog. Rydym wedi nodi’r dogfennau safonol y mae’r Brifysgol yn eu creu ac rydym wedi rhoi |
| | prosesau ar waith i wneud yn siŵr eu bod ar gael yn ddwyieithog pryd bynnag y bo’r angen. |
| Tiwtoriaid personol | Mae’r Brifysgol yn gofyn i fyfyrwyr a ydynt am gael tiwtor personol Cymraeg wrth iddynt ymrestru. Rhennir y dewisiadau hyn â’r ysgolion, a byddant yn neilltuo tiwtor yn ôl yr angen. Mae sawl Ysgol sydd â lefel uchel o fyfyrwyr sy’n medru’r Gymraeg yn aseinio tiwtor Cymraeg iddynt yn ddiofyn. |

| | |
|---|---|
| Arwyddion, hysbysiadau, a hysbysebion | Mae arweiniad i staff ar gael er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y maes hwn. |
| Cyfryngau cymdeithasol | Rydym wedi datblygu canllawiau i staff er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o ofynion Safonau'r Gymraeg, sy'n amrywio yn dibynnu ar y math o gyfrif a chynulleidfa. |

## Safonau Llunio Polisi

| Grŵp Safonau | Camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn dan sylw |
|---|---|
| Llunio Polisi | Wrth greu Polisïau newydd, cynnal ymgyngoriadau neu ymchwil yn ymwneud â'r Polisïau hynny, gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chyllid grant, neu ddatblygu neu ddiwygio cwrs, mae gofyn i'r Brifysgol ystyried yr effaith ar y Gymraeg. Mae ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys ystyriaeth o'r Iaith Gymraeg.<br><br>I gydnabod pwysigrwydd y Safonau yn y maes hwn, mae'r Brifysgol wedi cynhyrchu canllaw i'r holl staff. Gyda chymorth rhwydwaith Hyrwyddwyr y Gymraeg, rydym wedi dechrau cyfeirio'r canllaw hwn at swyddogion a thimau sy'n debygol o gyflawni gweithgareddau a fydd yn golygu bod yn rhaid cynnal Asesiad. |

## Safonau Gweithredu

Gellir darllen datganiad o gydymffurfiaeth ffurfiol y Brifysgol â'r Safonau Gweithredu yn nogfen Polisi Safonau Gweithredol y Gymraeg.

| Grŵp Safonau | Camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn dan sylw |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Recriwtio | Asesir pob swydd newydd a/neu wag mewn perthynas â lefel yr hyfedredd yn y Gymraeg sy'n ofynnol, a chaiff ei dosbarthu yn ôl un o'r isod: • hyfedredd/rhuglder yn hanfodol;<br>• hyfedredd/rhuglder yn ddymunol;<br>• gofyniad i ddod yn hyfedr/rhugl;<br>• nid yw hyfedredd/rhuglder yn angenrheidiol.<br><br>Cyhoeddir hysbysebion swyddi yn Gymraeg a Saesneg. Mae ffurflenni cais a deunyddiau recriwtio ategol ar gael yn Gymraeg ac mae unrhyw ffurflen gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ymateb yn Gymraeg. |
| Hyfforddiant Staff a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg | Mae'r modiwl gorfodol am y Gymraeg yn cynnwys adran labordy iaith sy'n rhoi lefel sylfaenol o Gymraeg i staff.<br><br>Mae Ysgol y Gymraeg, fel darparwyr y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg, yn cynnig ystod eang o gyrsiau Cymraeg trwy Dysgu Cymraeg Caerdydd. Mae ar gael i staff ar lefelau gwahanol, i ddysgu neu wella eu Cymraeg, yn ystod oriau gwaith neu wedi hynny.<br><br>Mae cyrsiau ar gael a gynhelir unwaith neu ddwywaith yr wythnos, yn ddyddiol neu fel bloc, yn ogystal â chyrsiau sy'n caniatáu i chi astudio hanner y cwrs ar-lein a'r hanner arall yn y dosbarth.<br><br>Darperir cyfleoedd pellach i ddysgu Cymraeg gan Dysgu Cymraeg Caerdydd trwy'r rhaglen Cymraeg Gwaith a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; mae'r rhain yn gyrsiau pwrpasol ar gyfer staff gyda chefnogaeth un-i-un fwy helaeth, wedi'u hanelu'n benodol at wella sgiliau'r rhai a allai gyfrannu at ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol.<br><br>Mae Dysgu Cymraeg Caerdydd yn cynnig grwpiau sgwrsio anffurfiol wythnosol i ddysgwyr ar bob lefel. |
| Dogfennau | Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae dogfennau ar gael yn Gymraeg i staff ar gais yn ôl y gofyn. |
| Cwynion a Disgyblu | Gall pob aelod o staff wneud cais i ddefnyddio'r Gymraeg mewn materion sy'n ymwneud ag unrhyw gŵyn a godir, neu a godir yn ei erbyn. Os yw aelod o staff yn destun achos disgyblu, caiff yr unigolyn hwnnw ymateb yn Gymraeg mewn unrhyw gyfrwng. |

# 6. Cynllun Gweithredu 2023-2024

Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, mae'r Brifysgol wedi canolbwyntio ar gyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Gweithredu (cyfeiriwch at Atodiad A) er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth fwy cadarn â Safonau'r Gymraeg.

# 7. Cynllun Gweithredu 2024-2025

Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, bydd y Brifysgol yn canolbwyntio ar gyflawni'r camau gweithredu a nodir yng Nghynllun Gweithredu 2024-2025 (cyfeiriwch at Atodiad B).

# 8. Cwynion

Mae'r modd y mae Prifysgol Caerdydd yn delio â chwynion yn ymwneud â'r Gymraeg wedi'i nodi yn y [Polisi Darparu Gwasanaethau](#) a'r [Polisi Safonau Gweithredol](#).

Anogir y rhai sy'n cwyno i gysylltu â complianceandrisk@caerdydd.ac.uk gydag unrhyw bryderon. Mae'r Uwch-Gynghorydd Cydymffurfiaeth a Swyddog y Gymraeg, a Swyddogion Cydymffurfiaeth yn monitro'r mewnflwch hwn ac yn cysylltu ag adrannau i ymchwilio i gwynion.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2023-2024, daeth 13 o gŵynion i law ym Mhrifysgol Caerdydd.

## Natur y cwynion

| Dyddiad y Gŵyn | Manylion | Camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2023 | Daeth cwyn i law am ohebiaeth Saesneg yn unig yn cael ei rhoi i fyfyrwyr yn ystod y Boicot Marcio ac Asesu. | Cadarnhawyd y gŵyn. Cynyddodd Prifysgol Caerdydd ei chapasiti a'i phrosesau cyfieithu er mwyn sicrhau adnoddau i ymateb a chyfleu gwybodaeth mewn perthynas â digwyddiadau mawr. |
| Gorffennaf 2023 | Cwyn am safon y Gymraeg ar dystysgrifau gradd swyddogol. | Cadarnhawyd y gŵyn. Diweddarwyd systemau mewnol, ac ail-ddyroddwyd y dystysgrif i'r unigolyn graddedig. Gwnaed gwiriadau pellach yn y blynyddoedd dilynol er mwyn sicrhau cysondeb. |

| | | |
|---|---|---|
| Awst 2023 | Cwyn am safon y Gymraeg ar dystysgrifau gradd swyddogol. | Cadarnhawyd y gŵyn. Diweddarwyd systemau mewnol, ac ail-ddyroddwyd y dystysgrif i'r unigolyn graddedig. Gwnaed gwiriadau pellach yn y blynyddoedd dilynol er mwyn sicrhau cysondeb. |

| | | |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2023 | Cwyn yn honni diffyg cydymffurfiaeth â Safon 87 (Hunaniaeth Gorfforaethol) | Ni chadarnhawyd y gŵyn. Roedd y Brifysgol wedi cydymffurfio â safon 87 yn ystod ei hymarfer ailfrandio ac wedi rhoi manylion am hyn i'r achwynydd. |
| Rhagfyr 2023 | Daeth cwyn i law ynghylch argaeledd gwybodaeth am gyfleoedd dysgu. | Ni chadarnhawyd y gŵyn. Nid yw Prifysgol Caerdydd yn ddarostyngedig i Safon 89 yr oedd yr achwynydd wedi cwyno amdani. |
| Ionawr 2024 | Cafwyd rhag hysbysiad o ymchwiliad statudol gan Gomisiynydd y Gymraeg, cyf. CS1299. Roedd hyn yn ymwneud â chwyn a gafwyd gan aelod o'r cyhoedd ynghylch ein hymarfer ailfrandio a oedd yn honni nad oedd yn cydymffurfio â Safon 87 (Hunaniaeth Gorfforaethol). | Ni chadarnhawyd y gŵyn. Llwyddodd Prifysgol Caerdydd i ddarparu tystiolaeth gadarn a manwl i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch ein cydymffurfiaeth â'r safon hon yn ystod ein hymarfer ailfrandio. Felly penderfynodd y Comisiynydd yn erbyn agor ymchwiliad statudol. |
| Ionawr 2024 | Cwyn ynghylch mynediad at wasanaethau anabledd cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr. | Cadarnhawyd y gŵyn yn rhannol. Ymchwiliwyd i'r gŵyn gan y Brifysgol a sicrhawyd darpariaeth Gymraeg. |
| Chwefror 2024 | Cwyn ynghylch safon y Gymraeg a ddefnyddir mewn hysbysiadau sy'n cael eu hanfon at fyfyrwyr yn llety'r Brifysgol. | Cadarnhawyd y gŵyn. Rhoddodd y Tîm Cyfieithu fersiwn Gymraeg i'r Tîm Preswyl, a cadarnhawyd ganddynt y byddai'n cael ei defnyddio yn y dyfodol. |
| Mawrth 2024 | Nid oedd darpar fyfyriwr wedi gallu gwneud cais ar-lein yn y Gymraeg am gwrs rhan-amser i oedolion. | Cadarnhawyd y gŵyn. Bydd tîm datblygu'r we yn rhoi ffurflen gofrestru ddwyieithog ar waith. |

| | | |
|---|---|---|
| Mawrth 2024 | Honnodd achwynydd ei fod wedi cael darn o ohebiaeth uniaith Saesneg gan y Brifysgol. | Ni chadarnhawyd y gŵyn. Roedd y Brifysgol wedi cyhoeddi'r ohebiaeth yn unol â dewis iaith yr unigolyn fel y'i cofnodwyd yn ystod y broses ymgeisio. |
| Mai 2024 | Cwyn ynghylch ymateb Saesneg i ddarn Cymraeg o ohebiaeth. | Cadarnhawyd y gŵyn. Darparwyd copi Cymraeg o'r ohebiaeth i'r achwynydd a rhoddwyd arweiniad i staff ynghylch defnyddio'r swyddogaeth awto-gyfieithu ar Outlook a all roi'r argraff bod ebost wedi dod i law yn Gymraeg. |
| Mehefin 2024 | Roedd y gŵyn yn canolbwyntio ar oedi cyn cael gohebiaeth Gymraeg gan y Brifysgol. | Cadarnhawyd y gŵyn yn rhannol. Anfonwyd gohebiaeth yn Gymraeg ond cafodd ei ddychwelyd ar ffurf post nas dosbarthwyd. Bydd y Gofrestrfa yn gweithio i ffurfioli proses i reoli digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol. |
| Gorffennaf 2024 | Cwyn ynghylch safon y Gymraeg ar arwyddion yn adeilad sbarc/spark. | Cadarnhawyd y gŵyn. Mae'r adran berthnasol yn cyrchu labeli i gywiro’r arwyddion. |

# 9. Sgiliau Iaith Gymraeg y Gweithwyr

Ceir amlinelliad o broffil staff y Brifysgol sy'n siarad Cymraeg isod, mae hefyd yn cynnwys ein cyfraddau ymateb.

Mae canran y gyfradd ymateb yn adlewyrchu % y staff yn yr adran sydd wedi dweud wrthym am eu sgiliau iaith Gymraeg yn rhan o'u proffil Adnoddau Dynol.

Mae'r cyfanswm canrannol ar ddiwedd pob llinell yn adlewyrchu canran y rhai sydd â rhywfaint o allu neu sgiliau rhugl yn y Gymraeg o gyfanswm nifer y staff sydd wedi ymateb yn yr adran.

Mae adran 9a yn darparu dadansoddiad manylach o'r data hyn, gan eu dosbarthu'n staff Academaidd a staff y Gwasanaethau Proffesiynol.

| Ysgol/Adran | Dim Ymateb | Ymateb | Cyfradd Ymateb | Rhugl | Rhywfaint o Allu | Dim Gallu | Rhugl/Rhywfaint o Allu | Rhugl/Rhywfaint o Allu % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GWASANAETHAU ACADEMAIDD A CHEFNOGI MYFYRWYR | 64 | 651 | 91.05% | 31 | 269 | 351 | 300 | 41.96% |
| PENSAERNÏAETH | 26 | 69 | 72.63% | 0 | 18 | 51 | 18 | 18.95% |
| Y CELFYDDYDAU, Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL | 15 | 57 | 79.17% | 4 | 20 | 33 | 24 | 33.33% |
| Y GWYDDORAU BIOFEDDYGOL A GWYDDORAU BYWYD | 32 | 53 | 62.35% | 1 | 28 | 24 | 29 | 34.12% |
| BIOWYDDORAU | 102 | 207 | 66.99% | 5 | 51 | 151 | 56 | 18.12% |
| GWASANAETHAU'R CAMPWS | 181 | 97 | 34.89% | 1 | 33 | 63 | 34 | 12.23% |
| YSGOL BUSNES CAERDYDD | 91 | 242 | 72.67% | 5 | 54 | 183 | 59 | 17.72% |
| Y GYFRAITH A GWLEIDYDDIAETH CAERDYDD | 56 | 150 | 72.82% | 7 | 46 | 97 | 53 | 25.73% |
| PRIFYSGOL CAERDYDD | 1 | 0 | 0.00% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.00% |
| CEMEG | 31 | 117 | 79.05% | 3 | 28 | 86 | 31 | 20.95% |
| CYFATHREBU A MARCHNATA | 17 | 178 | 91.28% | 15 | 82 | 81 | 97 | 49.74% |
| CYFRIFIADUREG | 26 | 168 | 86.60% | 7 | 46 | 115 | 53 | 27.32% |
| DEINTYDDIAETH | 25 | 91 | 78.45% | 3 | 22 | 66 | 25 | 21.55% |
| DATBLYGIAD A CHYSYLLTIADAU CYNFYFYRWYR | 1 | 26 | 96.30% | 2 | 16 | 8 | 18 | 66.67% |
| GWYDDORAU'R DDAEAR A'R AMGYLCHEDD | 12 | 86 | 87.76% | 0 | 26 | 60 | 26 | 26.53% |
| PEIRIANNEG | 91 | 203 | 69.05% | 4 | 56 | 143 | 60 | 20.41% |
| SAESNEG, CYFATHREBU AC ATHRONIAETH | 5 | 108 | 95.58% | 5 | 36 | 67 | 41 | 36.28% |
| YSTADAU A CHYFLEUSTERAU'R CAMPWS | 81 | 107 | 56.91% | 4 | 27 | 76 | 31 | 16.49% |
| CYLLID | 22 | 105 | 82.68% | 1 | 32 | 72 | 33 | 25.98% |
| DAEARYDDIAETH A CHYNLLUNIO | 13 | 72 | 84.71% | 1 | 23 | 48 | 24 | 28.24% |
| GWYDDORAU GOFAL IECHYD | 50 | 226 | 81.88% | 11 | 82 | 133 | 93 | 33.70% |
| HANES, ARCHAEOLEG A CHREFYDD | 40 | 84 | 67.74% | 3 | 30 | 51 | 33 | 26.61% |
| ADNODDAU DYNOL | 12 | 74 | 86.05% | 5 | 32 | 37 | 37 | 43.02% |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ARCHWILIO MEWNOL | 0 | 3 | 100.00% | 0 | 3 | 0 | 3 | 100.00% |
| NEWYDDIADURAETH, Y CYFRYNGAU AC ASTUDIAETHAU DIWYLLIANNOL | 31 | 64 | 67.37% | 4 | 16 | 44 | 20 | 21.05% |
| MATHEMATEG | 11 | 64 | 85.33% | 3 | 18 | 43 | 21 | 28.00% |
| MEDDYGAETH | 369 | 732 | 66.49% | 25 | 243 | 464 | 268 | 24.34% |
| CERDDORIAETH | 9 | 25 | 73.53% | 3 | 9 | 13 | 12 | 35.29% |
| OPTOMETREG A GWYDDORAU'R GOLWG | 65 | 74 | 53.24% | 0 | 24 | 50 | 24 | 17.27% |
| FFERYLLIAETH A GWYDDORAU FFERYLLOL | 28 | 68 | 70.83% | 7 | 24 | 37 | 31 | 32.29% |
| GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG | 2 | 28 | 93.33% | 2 | 7 | 19 | 9 | 30.00% |
| FFISEG A SERYDDIAETH | 64 | 125 | 66.14% | 3 | 29 | 93 | 32 | 16.93% |
| GWASANAETHAU PORTFFOLIO | 6 | 30 | 83.33% | 1 | 9 | 20 | 10 | 27.78% |
| SEICOLEG | 65 | 104 | 61.54% | 4 | 25 | 75 | 29 | 17.16% |
| GWASANAETHAU YMCHWIL AC ARLOESEDD | 14 | 96 | 87.27% | 4 | 41 | 51 | 45 | 40.91% |
| YSGOL IEITHOEDD MODERN | 27 | 74 | 73.27% | 5 | 23 | 46 | 28 | 27.72% |
| GWYDDORAU CYMDEITHASOL | 47 | 194 | 80.50% | 8 | 62 | 124 | 70 | 29.05% |
| CYNLLUNIO STRATEGOL | 2 | 17 | 89.47% | 1 | 6 | 10 | 7 | 36.84% |
| TG Y BRIFYSGOL | 68 | 237 | 77.70% | 10 | 79 | 148 | 89 | 29.18% |
| SWYDDFA YSGRIFENNYDD Y BRIFYSGOL | 1 | 34 | 97.14% | 15 | 2 | 17 | 17 | 48.57% |
| SWYDDFA'R IS-GANGHELLOR | 5 | 31 | 86.11% | 4 | 12 | 15 | 16 | 44.44% |
| Y GYMRAEG | 9 | 44 | 83.02% | 43 | 1 | 0 | 44 | 83.02% |
| **Cyfanswm Terfynol** | **1817** | **5215** | **74.16%** | **260** | **1690** | **3265** | **1950** | **27.73%** |

# 9a) Sgiliau Iaith Gymraeg Staff y Gwasanaethau Academaidd a Phroffesiynol

Mae Sgiliau Iaith Gymraeg ein Staff Academaidd fel a ganlyn:

| Ysgol/Adran | Dim ymateb | Ymateb | Cyfradd Ymateb | Rhugl | Rhywfaint o Allu | Dim Gallu | Rhugl/Rhywfaint o Allu | Rhugl/Rhywfaint o Allu % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GWASANAETHAU ACADEMAIDD A CHEFNOGI MYFYRWYR | 9 | 45 | 83.33% | 2 | 16 | 27 | 18 | 33.33% |
| PENSAERNÏAETH | 18 | 51 | 73.91% | 0 | 8 | 43 | 8 | 11.59% |
| Y CELFYDDYDAU, Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL | 7 | 18 | 72.00% | 0 | 3 | 15 | 3 | 12.00% |
| Y GWYDDORAU BIOFEDDYGOL A GWYDDORAU BYWYD | 0 | 5 | 100.00 % | 0 | 4 | 1 | 4 | 80.00% |
| BIOWYDDORAU | 63 | 143 | 69.42% | 3 | 30 | 110 | 33 | 16.02% |
| YSGOL BUSNES CAERDYDD | 73 | 175 | 70.56% | 2 | 23 | 150 | 25 | 10.08% |
| Y GYFRAITH A GWLEIDYDDIAETH CAERDYDD | 48 | 110 | 69.62% | 7 | 31 | 72 | 38 | 24.05% |
| PRIFYSGOL CAERDYDD | 1 | 0 | 0.00% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.00% |
| CEMEG | 21 | 82 | 79.61% | 2 | 12 | 68 | 14 | 13.59% |
| CYFRIFIADUREG | 17 | 117 | 87.31% | 6 | 23 | 88 | 29 | 21.64% |
| DEINTYDDIAETH | 22 | 64 | 74.42% | 3 | 16 | 45 | 19 | 22.09% |
| DATBLYGIAD A CHYSYLLTIADAU CYNFYFYRWYR | 0 | 1 | 100.00 % | 0 | 0 | 1 | 0 | 0.00% |
| GWYDDORAU'R DDAEAR A'R AMGYLCHEDD | 6 | 56 | 90.32% | 0 | 15 | 41 | 15 | 24.19% |
| PEIRIANNEG | 66 | 141 | 68.12% | 2 | 33 | 106 | 35 | 16.91% |
| SAESNEG, CYFATHREBU AC ATHRONIAETH | 5 | 87 | 94.57% | 5 | 26 | 56 | 31 | 33.70% |
| CYLLID | 0 | 1 | 100.00 % | 0 | 1 | 0 | 1 | 100.00 % |
| DAEARYDDIAETH A CHYNLLUNIO | 11 | 60 | 84.51% | 0 | 18 | 42 | 18 | 25.35% |
| GWYDDORAU GOFAL IECHYD | 39 | 166 | 80.98% | 9 | 59 | 98 | 68 | 33.17% |
| HANES, ARCHAEOLEG A CHREFYDD | 38 | 60 | 61.22% | 2 | 16 | 42 | 18 | 18.37. % |
| NEWYDDIADURAETH, Y CYFRYNGAU AC ASTUDIAETHAU DIWYLLIANNOL | 19 | 43 | 69.35% | 2 | 9 | 32 | 11 | 17.74% |
| MATHEMATEG | 8 | 54 | 87.10% | 2 | 15 | 37 | 17 | 27.42% |
| MEDDYGAETH | 262 | 400 | 60.42% | 15 | 112 | 273 | 127 | 19.18% |
| CERDDORIAETH | 8 | 16 | 66.67% | 1 | 4 | 11 | 5 | 20.83% |
| OPTOMETREG A GWYDDORAU'R GOLWG | 49 | 56 | 53.33% | 0 | 17 | 39 | 17 | 16.19% |
| FFERYLLIAETH A GWYDDORAU FFERYLLOL | 21 | 44 | 67.69% | 5 | 15 | 24 | 20 | 30.77% |
| GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG | 1 | 4 | 80.00% | 0 | 2 | 2 | 2 | 40.00% |
| FFISEG A SERYDDIAETH | 42 | 81 | 65.85% | 1 | 10 | 70 | 11 | 8.94% |
| SEICOLEG | 54 | 72 | 57.14% | 1 | 12 | 59 | 13 | 10.32% |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YSGOL IEITHOEDD MODERN | 18 | 48 | 72.73% | 1 | 12 | 35 | 13 | 19.70% |
| GWYDDORAU CYMDEITHASOL | 35 | 135 | 79.41% | 7 | 34 | 94 | 41 | 24.12% |
| SWYDDFA'R IS-GANGHELLOR | 1 | 10 | 90.91% | 2 | 3 | 5 | 5 | 45.45% |
| Y GYMRAEG | 6 | 34 | 85.00% | 33 | 1 | 0 | 34 | 85.00% |
| **Cyfanswm Terfynol** | **968** | **2379** | **71.08%** | **113** | **580** | **1686** | **693** | **20.71%** |

Mae Sgiliau Iaith Gymraeg Staff ein Gwasanaethau Proffesiynol fel a ganlyn:

| Ysgol/Adran | Dim ymateb | Ymateb | Cyfradd Ymateb | Rhugl | Rhywfaint o Allu | Dim Gallu | Rhugl/Rhywfaint o Allu | Rhugl/Rhywfaint o Allu % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GWASANAETHAU ACADEMAIDD A CHEFNOGI MYFYRWYR | 55 | 606 | 91.68% | 29 | 253 | 324 | 282 | 42.66% |
| PENSAERNÏAETH | 8 | 18 | 69.23% | 0 | 10 | 8 | 10 | 38.46% |
| Y CELFYDDYDAU, Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL | 8 | 39 | 82.98% | 4 | 17 | 18 | 21 | 44.68% |
| Y GWYDDORAU BIOFEDDYGOL A GWYDDORAU BYWYD | 32 | 48 | 60.00% | 1 | 24 | 23 | 25 | 31.25% |
| BIOWYDDORAU | 39 | 64 | 62.14% | 2 | 21 | 41 | 23 | 22.33% |
| GWASANAETHAU'R CAMPWS | 181 | 97 | 34.89% | 1 | 33 | 63 | 34 | 12.23% |
| YSGOL BUSNES CAERDYDD | 18 | 67 | 78.82% | 3 | 31 | 33 | 34 | 40.00% |
| Y GYFRAITH A GWLEIDYDDIAETH CAERDYDD | 8 | 40 | 83.33% | 0 | 15 | 25 | 15 | 31.25% |
| CEMEG | 10 | 35 | 77.78% | 1 | 16 | 18 | 17 | 37.78% |
| CYFATHREBU A MARCHNATA | 17 | 178 | 91.28% | 15 | 82 | 81 | 97 | 49.74% |
| CYFRIFIADUREG | 9 | 51 | 85.00% | 1 | 23 | 27 | 24 | 40.00% |
| DEINTYDDIAETH | 3 | 27 | 90.00% | 0 | 6 | 21 | 6 | 20.00% |
| DATBLYGIAD A CHYSYLLTIADAU CYNFYFYRWYR | 1 | 25 | 96.15% | 2 | 16 | 7 | 18 | 69.23% |
| GWYDDORAU'R DDAEAR A'R AMGYLCHEDD | 6 | 30 | 83.33% | 0 | 11 | 19 | 11 | 30.56% |
| PEIRIANNEG | 25 | 62 | 71.26% | 2 | 23 | 37 | 25 | 28.74% |
| SAESNEG, CYFATHREBU AC ATHRONIAETH | 0 | 21 | 100.00% | 0 | 10 | 11 | 10 | 47.62% |
| YSTADAU A CHYFLEUSTERAU'R CAMPWS | 81 | 107 | 56.91% | 4 | 27 | 76 | 31 | 16.49% |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYLLID | 22 | 104 | 82.54% | 1 | 31 | 72 | 32 | 25.40% |
| DAEARYDDIAETH A CHYNLLUNIO | 2 | 12 | 85.71% | 1 | 5 | 6 | 6 | 42.86% |
| GWYDDORAU GOFAL IECHYD | 11 | 60 | 84.51% | 2 | 23 | 35 | 25 | 35.21% |
| HANES, ARCHAEOLEG A CHREFYDD | 2 | 24 | 92.31% | 1 | 14 | 9 | 15 | 57.69% |
| ADNODDAU DYNOL | 12 | 74 | 86.05% | 5 | 32 | 37 | 37 | 43.02% |
| ARCHWILIO MEWNOL | 0 | 3 | 100.00% | 0 | 3 | 0 | 3 | 100.00% |
| NEWYDDIADURAETH, Y CYFRYNGAU AC ASTUDIAETHAU DIWYLLIANNOL | 12 | 21 | 63.64% | 2 | 7 | 12 | 9 | 27.27% |
| MATHEMATEG | 3 | 10 | 76.92% | 1 | 3 | 6 | 4 | 30.77% |
| MEDDYGAETH | 107 | 332 | 75.63% | 10 | 131 | 191 | 141 | 32.12% |
| CERDDORIAETH | 1 | 9 | 90.00% | 2 | 5 | 2 | 7 | 70.00% |
| OPTOMETREG A GWYDDORAU'R GOLWG | 16 | 18 | 52.94% | 0 | 7 | 11 | 7 | 20.59% |
| FFERYLLIAETH A GWYDDORAU FFERYLLOL | 7 | 24 | 77.42% | 2 | 9 | 13 | 11 | 35.48% |
| GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG | 1 | 24 | 96.00% | 2 | 5 | 17 | 7 | 28.00% |
| FFISEG A SERYDDIAETH | 22 | 44 | 66.67% | 2 | 19 | 23 | 21 | 31.82% |
